



Polisi a Chanllawiau Diogelwch Gwybodaeth

Datganiad Polisi

Mae gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan Gomisiynydd Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol yn ased arwyddocaol. Wrth weithredu ein rolau gall y byddwn yn cael mynediad i ystod eang o wybodaeth, ac yn ei chreu a'i defnyddio; rydyn ni'n dibynnu ar gywirdeb, hygyrchedd a chyfrinachedd gwybodaeth i gynorthwyo ein gwaith a gwireddu swyddogaethau statudol y Comisiynydd.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein hymagwedd tuag at reoli diogelwch gwybodaeth ac yn darparu egwyddorion sy'n ein harwain i gynorthwyo a diogelu ein systemau gwybodaeth; mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i holl asedau'n gwybodaeth mewn fformatau electronig a ffisegol.

Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA), a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR), yn gosod dyletswydd a chyfrifoldebau ar y Comisiynydd parthed yr wybodaeth sy'n cael ei chadw gennym.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i'r holl staff a chydweithwyr gyfarwyddo â'r Egwyddorion Diogelu Gwybodaeth a gynhwysir yn y polisi hwn ac i ddefnyddio rheolyddion priodol i reoli'r risgiau i'n diogelwch gwybodaeth.

Egwyddorion Diogelu Gwybodaeth

Tra'i bod yn ofynnol i'r holl staff lynu wrth ofynion y polisi hwn, y staff â chyfrifoldeb arbennig am reoli gwybodaeth yw:

Comisiynydd

Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol

Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesedd

Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau

Swyddog Diogelu Data

Rheolyddion Mynediad

- Mae ein systemau rheoli gwybodaeth wedi cael eu gosod i sicrhau bod yr holl staff yn cael mynediad i'r adnoddau gwybodaeth sy'n addas ar gyfer eu rôl.

- Mae rheolyddion mynediad yn eu lle i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn hygyrch yn unig i rai categorïau o staff ar gyfer dibenion cyfyngedig.
- Mae'r trefniadau mynediad hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Os yr ydych yn credu bod eich trefniadau mynediad yn anghywir dylech godi hyn gyda'r Swyddog Diogelu Data ar unwaith.

Ebyst: rhannu gwybodaeth, cyfyngu ar fynediad

- Fel yr un sy'n creu e-byst, eich cyfrifoldeb chi yw rhoi cyfarwyddiadau i dderbynwyr am yr hyn y gellir ei wneud gyda'r data yn y neges. E.e. Peidiwch ei gylchredeg - cysylltwch â mi fel yr un a anfonodd yr wybodaeth yn y lle cyntaf.
- Fel y derbynnydd, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau nad ydych yn rhannu gwybodaeth mewn dull amhriodol yn arbennig gydag eraill y **tu allan** i'r sefydliad. Os nad ydych yn siŵr - gwiriwch cyn rhannu.

Adolygu Trefniadau

- Rydyn ni'n cynnal adolygiad blynyddol o drefniadau diogelu gwybodaeth yn cynnwys asesiad o risgiau presennol i ddiogelwch seiber ac adolygiad o ddigwyddiadau neu brofiadau a gafodd eu hosgoi o drwch blewyn. Bydd yr adolygiad hwn yn trwytho cynlluniau'r dyfodol ac unrhyw newidiadau angenrheidiol i'n trefniadau diogelwch.
- Os bydd newid mewn amgylchiadau neu risgiau, ac os bydd rhaid cymryd camau a gwneud newidiadau, rhoddir gwybod i'r holl staff a chaiff y polisi hwn ei ddiweddarau.

Gweithredu Systemau Newydd

- Mae pob system TGCh e.e. gwasanaethau ffôn, basau data, system CRM – yn amodol ar ofynion y polisi hwn a disgwylir i'r staff sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r systemau hyn i sicrhau bod materion diogelu gwybodaeth yn cael sylw yn y cyfnod cynharaf oll.

Cyflenwyr

- Bydd yn ofynnol i'n holl gyflenwyr ddangos eu bod yn medru glynu wrth egwyddorion y polisi hwn.
- Mae ein Gwasanaethau Cymorth TG ar hyn o bryd yn cael eu darparu gan Orbits IT. Mae hwn i fod i gael ei adolygu yn 2018.
- Mae gwasanaethau a safonau sy'n tanategu'r contract hwn wedi eu nodi mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) a chontract prosesu/rhannu data.

Darparwyr Cwmwl

- Mae'r GDPR yn ei gwneud yn ofynnol i ni gael mesurau technolegol priodol yn ei le i sicrhau bod ein data'n ddiogel. Hyd yn oed pan fydd ein data'n cael ei storio drwy wasanaethau seiliedig ar gwmwl rydyn ni'n cadw'r cyfrifoldeb fel rheolwr data, a byddwn felly'n gyfrifol petai defnydd diawdurdod o ddata'n digwydd.
- Disgwylir i'n darparwyr gwasanaeth cwmwl felly ddangos bod y gwasanaeth yn cwrdd â safonau **preifatrwydd drwy ddyluniad** GDPR a'i fod wedi ystyried diogelu gwybodaeth fel egwyddor sylfaenol yn narpariaeth ei wasanaeth.

Unrhyw ddefnydd diawdurdod o ddata personol

- Caiff ein Gwasanaethau Cymorth TG presennol eu darparu gan Orbits IT. Bydd y trefniant hwn yn cael ei adolygu yn 2018.
- Caiff gwasanaethau a safonau sy'n tanategu'r contract hwn eu nodi yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA).

Cydymffurfio ac Ymwybyddiaeth

- Hyfforddi
 - o Rhoddir i'r holl staff ganllawiau a hyfforddiant priodol mewn ymwybyddiaeth
 - o Rhoddir hyfforddiant i gychwynwyr newydd fel rhan o'u proses sefydlu
- Cyngor

Gallwch chwilio am gyngor ar y polisi hwn a'i ofynion oddi wrth unrhyw aelod o'r uwch dîm neu eich Swyddog Diogelu Data penodedig

Monitro a Chamau Disgyblu

- Mae mynediad i'n systemau'n cael ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau diogelwch a chywirdeb data a gedwir gennym a gallai fod yn amodol ar gamau disgyblu.
- Dylai'r holl staff gyfarwyddo â'n Polisi Defnydd Derbyniol o DG
- Gallai unrhyw ddefnydd diawdurdod o ddata arwain at golli data, arwain at ddefnydd diawdurdod o gyfrinachedd ac argaeledd gwybodaeth a gedwir ar ein systemau. Mae colli data neu golli mynediad i wybodaeth a gedwir gan y Comisiynydd yn golygu na



fedrwn gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

- Byddai unrhyw ddefnydd diawdurdod o gyfrinachedd data personol mewn unrhyw ffordd yn mynd yn groes i'r GDPR a gallai arwain at ddirwyon neu gamau eraill yn erbyn y Comisiynydd.

Adrodd a Rheoli Digwyddiadau

- Bydd unrhyw ddefnydd diawdurdod o ddiogelwch yn cael ei reoli fel y nodwyd yn y Polisi a Chanllawiau Defnydd Diawdurdod o Ddata
- Disgwylir i'r holl staff a chydweithwyr adrodd unrhyw golled neu ddefnydd diawdurdod ac unrhyw faterion sy'n achosi pryder. Ymyrraeth gynnar yw'r ateb gan y gallai ein helpu i leihau effaith defnydd diawdurdod neu leihau'r risg o waethygiad.
- Gallwch wneud adroddiad neu godi mater gydag unrhyw aelod o'r uwch dîm neu gyda'r Swyddog Diogelu Data.

Polisiau Perthnasol

Polisi Llywodraethu Gwybodaeth

Polisi Diogelwch TG & Defnydd Derbyniol

Rhyddid Gwybodaeth & Pholisi Rheoliadau Amgylcheddol

Polisi Diogelu Data

Mynediad i Ganllawiau ar Wybodaeth

Polisi Defnydd Diawdurdod o Ddata

Canllawiau – Cadw Gwybodaeth yn Ddiogel

Gwnewch y pethau hyn

- Sicrhewch fod eich dyfeisiadau symudol wedi eu hamgryptio/cyfrineiriau cymhleth wedi eu diogelu
- Cofiwch gydymffurfio â cheisiadau i newid cyfrineiriau
- Cofiwch gydymffurfio â cheisiadau i ddiweddarau eich systemau



- Sicrhewch eich bod yn deall ac yn defnyddio unrhyw ddogfen/systemau marcio e-byst y cytunwyd arnynt
- Sicrhewch eich bod yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer diogelu gwybodaeth personol
- Sicrhewch eich bod yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer rhannu data personol
- Sicrhewch eich bod yn deall beth yw 'categoriâu arbennig' o ddata personol a'r camau y dylech eu cymryd
- Cofiwch adrodd unrhyw bryderon cyn ailgysylltu gliniadur neu ddyfais arall â'ch rhyngwyd.

Peidiwch

- Peidiwch â datgelu eich cyfrineiriau i neb
- Peidiwch â gadael eich Cyfrifiadur na'ch gliniadur heb eu cloi
- Peidiwch â storio cyfrinair ysgrifenedig ger eich gliniadur neu eich dyfais symudol
- Peidiwch â datgelu eich trefniadau diogelwch i 3ydd parti/cyflenwyr heb gytundeb ysgrifenedig cytundebol
- Peidiwch ag anghofio'r amgylchedd ffisegol – gofod swyddfa, llyfr nodiadau, nodiadau ar ddarnau o bapur, fflipsiartiau
- Peidiwch â gadael ymwelwyr yn y swyddfa ar eu pennau eu hunain
- Peidiwch â cheisio cyflwyno unrhyw feddalwedd newydd neu ffeiliau i system y Comisiynydd heb ganiatâd ysgrifenedig y Rheolwr Swyddfa
- Peidiwch â defnyddio unrhyw gyfryngau cludadwy neu yriant allanol; gallent gyfaddawdu cywirdeb systemau TG y Comisiynydd.
- Peidiwch ag anfon ebyst ymlaen sy'n cynnwys data personol heb ymgynghori â'r un a anfonodd yr e-bost yn y lle cyntaf.